# Cyfeirlyfr o adnoddau ar gyfer y gyfres newydd o fanylebau CBAC TGAU Gwyddoniaeth

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cyflwyniad

Mae'r cyfeirlyfr hwn wedi cael ei lunio i nodi'r adnoddau addas rhad ac am ddim sy'n helpu'n benodol gyda dysgu ac addysgu'r gyfres newydd o fanylebau CBAC TGAU Gwyddoniaeth.

Mae pum manyleb yn y gyfres, sef Bioleg, Cemeg, Ffiseg, Gwyddoniaeth Ddwyradd a Gwyddoniaeth Gymhwysol. Mae gan y cyfeirlyfr y nodweddion canlynol.

- Mae wedi cael ei rannu'n bedair adran, sef Bioleg, Cemeg, Ffiseg a Gwyddoniaeth Gymhwysol. Mae'r adrannau Bioleg wedi'u cysylltu â'r fanyleb Bioleg a'r unedau Bioleg yn y Fanyleb Gwyddoniaeth Ddwyradd, ac mae'r adrannau Cemeg a Ffiseg yn dilyn yr un patrwm. Mae hyn oherwydd bod y cynnwys a'r arddull yn y ddwy fanyleb yn debyg. Os yw'r cynnwys yn wahanol mae hyn wedi cael ei nodi. Mae gan y fanyleb Gwyddoniaeth Gymhwysol Ddwyradd adran ei hun oherwydd mae'r fanyleb hon yn wahanol i'r lleill yn y gyfres o ran cynnwys ac arddull.
- Mae'r adrannau wedi'u hamlygu mewn lliwiau gwahanol i helpu i'w dangos yn glir.
  - Bioleg (gwyrdd).
  - Cemeg (melyn).
  - Ffiseg (pinc).
  - Gwyddoniaeth Gymhwysol (oren).
- Mae pob adran yn cynnwys pum colofn ac o'r chwith i'r dde y penawdau yw:
  - cyfeirnod manyleb a phwnc
  - disgrifiad o'r adnodd a manylion cwmpas y fanyleb
  - lleoliad yr adnodd (hyperddolen)
  - nodiadau ar ddefnyddio'r adnodd
  - dwyieithog (ar gael yn Saesneg (EN) yn unig neu yn Gymraeg (CY) hefyd).
- Mae pynciau penodol ym mhob un o'r manylebau wedi'u cysylltu ag adnodd a enwir. Mae **o leiaf tri** phrif adnodd wedi cael eu nodi ar gyfer pob pwnc ym mhob un o'r manylebau. Yn aml mae mwy na thri yn dibynnu ar ddyfnder ac ehangder y cynnwys yn y fanyleb.
- Mae hyperddolen wedi cael ei ychwanegu er mwyn gallu cyrchu'r adnodd yn rhwydd. Bydd clicio dwywaith ar yr hyperddolen yn agor yr adnodd yn uniongyrchol. Os nad yw'n agor yn awtomatig copïwch yr hyperddolen a'i gludo i'ch porwr.
- Os yw'r adnodd ar gael yn ddwyieithog, mae'r hyperddolen ar gyfer y fersiynau Cymraeg a Saesneg wedi cael eu darparu (gweler EN ar gyfer Saesneg yn unig a CY ar gyfer y fersiwn Cymraeg).
- Mae amrywiaeth eang o wahanol fathau o adnoddau wedi cael eu darparu gan gynnwys, cynlluniau gwersi ar gyfer gwersi unigol a chyfres o wersi; deunyddiau i ddechrau gwers a sesiynau llawn; gweithgareddau cyflawn; awgrymiadau a chyngor ar gyfer gwaith ymarferol; arbrofion rhithwir; delweddau ar gyfer cynhyrchu posteri a thaflenni gwaith ystafell ddosbarth; gwybodaeth gefndirol; animeiddiadau i ddangos ac esbonio'r egwyddorion; data sy'n gysylltiedig â'r pwnc a allai gael ei gynnwys mewn gweithgaredd, gweithgareddau adolygu a chwisiau a phrofion.
- Mae'r adnoddau wedi cael eu cymryd o amrywiaeth eang o ddarparwyr gan gynnwys Hwb, CBAC, TES, BBC, cyrff dysgedig, Canolfan Genedlaethol STEM, YouTube, teachers TV, PhET (Prifysgol Colorado).

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG30461